Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth

## Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn ddilys nes hysbysir y sector AB fel arall.

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg |
This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 3
2. Diben y Rhaglen .......... 3
3. Trosolwg o Ddarparu .......... 3
4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr .......... 4
5. Cynnwys y Rhaglen .......... 4
6. Gofynion Cyflwyno Data .......... 4
   Codau’r Rhaglenni .......... 4
   Cofnodi Lleoliad Gwaith .......... 5
   Gwybodaeth Cyllid .......... 5
7. Monitro ac Archwilio .......... 5
   Dull Monitro .......... 5
   Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen .......... 5
   Deilliannau Dysgu .......... 5
   Profion Archwilio .......... 6
8. Manylion Cyswllt .......... 6
9. Atodiadau .......... 7
   A. Cofnodi’r Profiad Gwaith .......... 7

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Fanyleb Rhaglen hon yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu'r Rhaglen Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth. Mae'n darparu trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys cymhwystra ac amodau mynediad ar gyfer dysgwyr; ac yn manylu ar y gofynion cyflwyno data a monitro i alluogi Medr i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a'r deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth.

Mae'r Fanyleb hon hefyd yn rhan o'r Cytundeb rhwng Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) a Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu a chyllido Rhaglenni â manylebau arbennig. Rhaid i chi sicrhau bod eich darpariaeth yn ymlynu wrth y Fanyleb Rhaglen hon.

Mae dwy raglen astudio ar gael ar hyn o bryd; ar lefelau sy'n gyfwerth â lefel 2 a lefel 3.

## 2. Diben y Rhaglen

Mae Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth yn golygu gweithio mewn partneriaeth rhwng diwydiant, addysg a'r Llywodraeth i dyfu'r cyflenwad lleol o dalent ar gyfer cyflogwyr a sicrhau bod anghenion o ran sgiliau yn awr ac yn y dyfodol yn cael eu cefnogi trwy ymyrraeth a dargedir.

Mae'r model yn seiliedig ar gysyniad Academïau Sgiliau gyda Sicrwydd hirsefydlog yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi cefnogi twf busnesau brodorol a mewnfuddsoddiad.

## 3. Trosolwg o Ddarparu

Mae'r Academïau Sgiliau, sy'n rhedeg am 10 wythnos y rhaglen gyda hyd at 30 o oriau o amser cyswllt yr wythnos, yn arfogi graddedigion diweddar ac oedolion (yn bennaf trigolion lleol, gan ganolbwyntio ar ardaloedd amddifadus i gefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) â'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi gwag anodd i'w llenwi mewn sectorau sy'n profi prinderau sgiliau.

Mae academïau wedi cael eu dylunio ar y cyd â diwydiant ac yn dilyn eu cwblhau gwarentir bod dysgwyr yn cael cyfweliad gyda chyflogwyr sydd wedi cymeradwyo'r rhaglen. Gall dysgwyr hefyd gael mynediad at lwfans hyfforddi wythnosol a chronfa rhwystrau i gefnogi eu hymgysylltiad.

Rhaid i'r Rhaglen gynnwys o leiaf un diwrnod llawn[1] o leoliad gwaith gyda chyflogwr nad yw'r sefydliad AB yn rhannol neu'n llwyr berchen arno, lle gall dysgwyr fod â rôl benodol, datblygu eu sgiliau ymarferol a dod i gysylltiad â rhedeg busnes o ddydd i ddydd.

Dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio Amgylchedd Gwaith Realistig (RWE) yn y coleg ac ni ddylai roi cyfrif am fwy na 25% o gyfanswm nifer yr oriau. Sylwer y gall defnyddio RWE effeithio'n andwyol ar allu dysgwr i gamu ymlaen, gan bod adborth o'r diwydiant yn dynodi bod lleoliad mewn Amgylchedd Gwaith Go Iawn yn fwy manteisiol i ddysgwyr sy'n awyddus i gamu ymlaen i gyflogaeth neu brentisiaeth.

[1] Mae isafswm o 7 awr yn berthnasol.

Gall prosiectau a gyflawnir ar ran cleientiaid / sefydliadau allanol yng ngweithdai'r coleg gyfrif tuag at oriau'r lleoliad gwaith cyn belled â nad ydynt yn yr oriau addysgu wedi eu hamserlennu ar gyfer y dosbarth a bod y cyflogwr sy'n cydlynu'r lleoliad gwaith yn bresennol hefyd. Sylwer hefyd nad yw gweithio ochr yn ochr â thechnegwyr mewnol y coleg i drin, glanhau a chynnal a chadw offer yn cyfrif tuag at y cwota lleoliad gwaith.

Rhaid i Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau bod trefniadau yn eu lle i oruchwylio unrhyw leoliadau gwaith; gan gynnwys asesiadau iechyd a diogelwch a risg cyfoes.

## 4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr

Mae'r proffil dysgwyr a gaiff eu recriwtio, yn union cyn i'r rhaglen ddechrau, fel a ganlyn:

- 19 oed neu drosodd;
- yn ddi-waith neu'n dangyflogedig / yn gweithio'n rhan-amser;
- yn methu â chwblhau rhaglen ddwys heb ymyrraeth a chymorth[2];
- yn ceisio uwchsgilio / ailsgilio i fynd i mewn i sector â blaenoriaeth lle ceir bylchau neu brinderau sgiliau hysbys.

## 5. Cynnwys y Rhaglen

Rhaglenni a ddyluniwyd ar y cyd â diwydiant yw'r Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth. Maent yn arfogi oedolion â sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi gwag anodd i'w llenwi mewn sectorau sy'n profi prinderau sgiliau.

## 6. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a deilliannau dysgu'r rhaglen ar gyfer y Rhaglen Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn y fformat cywir ac mewn modd amserol.

Mae Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr LLWR[3] yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Codau'r Rhaglenni*

Dylid defnyddio'r codau rhaglenni canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr ar y Rhaglenni Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth:

8800J02G Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth (Lefel 2)
8800J03G Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth (Lefel 3)

[2] Ar gyfer e.e. lwfans hyfforddi wythnosol ar gyfer rhaglenni dwys (£150 yr wythnos) a gall fod arnynt hefyd angen mynediad at gyllid rhwystrau i gefnogi costau cludiant a gofal plant;
[3] Gweler Cofnod dysgu gydol oes Cymru (LLWR).

***Cofnodi Lleoliad Gwaith***

Bydd Medr yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynir trwy'r meysydd *LP12 (Enw'r Cyflogwr)* ac *LP13 (Cod Post y Cyflogwr)* yn LLWR i fonitro'r gofyniad hwn; felly rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gwblhau mewn modd amserol ar gyfer pob dysgwr.

Rydym yn derbyn na fydd rhai dysgwyr wedi'u cysylltu â chyflogwr neu na fydd ganddynt leoliad gwaith wedi ei drefnu ar ddechrau'r rhaglen, felly'r disgwyliad yw bod y manylion perthnasol yn cael eu poblogi cyn gynted ag y bydd yr wybodaeth am y cyflogwr yn hysbys a thra bo'r dysgwr yn dal ar y rhaglen.

Rhaid i sefydliadau sicrhau bod unrhyw oriau a dreulir ar leoliad gwaith gyda chyflogwr yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio'r meysydd canlynol yn LLWR:

- *LP70 (Amcangyfrif o'r Oriau Seiliedig ar Waith)*; ac
- *LP72 (Oriau Seiliedig ar Waith Gwirioneddol)*.

***Gwybodaeth Cyllid***

Mae cyfanswm y cofrestriadau ar yr Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth wedi eu capio ar 30 ar gyfer pob sefydliad o fewn un flwyddyn academaidd. Rhennir y cap gan y ddwy raglen.

## 7. Monitro ac Archwilio

Bydd gan fonitro ac archwilio rôl o ran sicrhau bod y canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac i helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

***Dull Monitro***

Bydd y dull o fonitro'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- cydymffurfio â manylebau'r rhaglen; a
- deilliannau dysgu ar gyfer y rhaglen.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fonitro ar ddiwedd y flwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl ar ddysgwyr ar Raglenni Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth.

***Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen***

Bydd Medr yn defnyddio data LLWR i fonitro'r modd y cydymffurfir â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys:

- monitro'r elfen lleoliad gwaith gan ddefnyddio data *LP12* ac *LP13*; a
- monitro'r data o setiau data'r rhaglen a gweithgareddau i wirio bod gofynion darparu'r rhaglen yn cael eu hateb.

***Deilliannau Dysgu***

Mae'r modd y mae dysgwyr yn camu ymlaen a chyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig i werthuso'r modd y darperir y rhaglen.

Y disgwyliad yw y bydd y mwyafrif o ddysgwyr sy'n cwblhau Rhaglen Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth yn llwyddiannus yn sicrhau cyflogaeth, yn ddelfrydol mewn sector sy'n profi prinderau sgiliau.

### *Profion Archwilio*

Yn ychwanegol at y dull o fonitro a nodir uchod, bydd data a ddychwelir gan sefydliadau AB yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol[4]. O fewn hyn, bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi yn y *Canllawiau Archwilwyr* i sicrhau bod archwilwyr allanol yn samplu dysgwyr sy'n gwneud y Rhaglenni Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth yn briodol.

## 8. Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr yn y blwch negeseuon e-bost canlynol: Buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

[4] Bydd y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## 9. Atodiadau

### *A. Cofnodi'r Profiad Gwaith*[5]

| Rhaglen Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth – Cynllun Lleoliad Gwaith | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | |
| Cymhwyster/cymwysterau a wneir: | |
| Enw'r cyflogwr: | |
| Cyfeiriad y lleoliad gwaith: | |
| Natur y busnes: | |
| Enw'r sawl y bydd y dysgwr yn atebol iddynt: | |
| Presenoldeb arfaethedig: | |
| Ymweliadau monitro arfaethedig gan y tiwtor: | |

**Rwy'n cytuno â'r Cynllun Lleoliad Gwaith uchod:**

| | | |
|---|---|---|
| Llofnodwyd gan y Dysgwr:<br>……………………………<br>Enw'r Dysgwr:<br>……….……………………<br>Dyddiad:<br>……………………………… | Llofnodwyd gan y Tiwtor:<br>……………………………<br>Enw'r Tiwtor:<br>……………………………<br>Dyddiad:<br>……………………………… | Llofnodwyd ar ran y Cyflogwr:<br>…………………………...<br>Swydd yn y cwmni:<br>…………………………...<br>Dyddiad:<br>…………………………... |

[5] DS: Dim ond templed a awgrymir ar gyfer y Cynllun Lleoliad Gwaith yw hwn.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**